# Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru Wedi'i Gadarnhau
# Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
# Cyfarfod Cyhoeddus 5 Mawrth, 2024, 10:00
# Cynhaliwyd yn 3.4 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | | |
| Sian Griffiths | (SG) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (y Brifysgol) |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) |
| **Yn bresennol:** | | |
| Sumina Azam | (SA) | Cyfarwyddwr Polisi Cenedlaethol ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd |
| Meng Khaw | (MK) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol |
| Fliss Bennee | (FB) | Pennaeth Data |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Alisha Davies | (AD) | Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso (Ar gyfer eitem 5.2.1) |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Rebecca Hill | (RH) | Uwch Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd |
| Dafydd James | (DJ) | Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol (Ar gyfer eitem 5.1/5.1.1 - ymunodd 11:12) |
| Elen De Lacy | (EDL) | Rheolwr Ymchwil a Datblygu Iechyd y Cyhoedd (Ar gyfer eitem 6.2) |
| Jim McManus | (JM) | Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant |
| Louisa Nolan | (LN) | Pennaeth Gwyddor Data |
| Tamsin Ramasut | (TR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) |
| Rebecca Hill | RH | Uwch Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd |
| Tom Connor | (TC) | Pennaeth Rhaglen Genomeg Iechyd y Cyhoedd |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Huw George | (HG) | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Jin Williams | (JW) | Cadeirydd |

Wedi'i Gadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:00*

**KRIC 1/2024.03.05 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mehefin 2024.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.

**KRIC 2/2024.03.05 Datganiadau o Fuddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**KRIC 3/2024.03.05 Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion sy'n Codi**

Bu'r Pwyllgor **yn ystyried** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2023 yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'u **cymeradwyodd**.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor estyniad i 4 Mehefin 2024 ar gyfer cam gweithredu 2023/13 ar y Cofnod Gweithredu ynghylch y cyfrifiad brechu canser a **chymeradwyodd** yr holl gamau eraill i'w nodi fel rhai wedi'u cwblhau.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**KRIC 4/2024.03.05 Archwiliadau Dwfn**

**KRIC 4.1/2024.03.05 Data Iechyd Meddwl, ymchwil a dadansoddi**

Rhoddodd JM/AD/EV gyflwyniad ar rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth fynd i'r afael â materion iechyd meddwl yng Nghymru a'r gwaith yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud ym meysydd ymchwil a gwasanaethau iechyd meddwl.
Rhoddodd AD yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith a wnaed gan yr Is-adran Ymchwil a Gwerthuso ar y rhaglen iechyd meddwl a llesiant (4.1 KRIC 2024_03_05 - Presentation Mental Health.pptx (live.com), yn cynnwys tri phrosiect ymchwil ar bobl ifanc 11-24 oed. Edrychodd hwn ar y llwybrau mynediad at ofal a diagnosis. Bu Iechyd Cyhoeddus Cymru/Labordy Data Rhwydwaith Cymru yn ystyried enghreifftiau o argyfwng iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc, megis y rhai a oedd yn wynebu'r risg fwyaf, ac ystyried lle mae pobl ifanc yn cael cymorth.
Ffocws y drafodaeth oedd deall sut beth yw da i iechyd meddwl yng Nghymru a rôl ICC yn y system, gan ganolbwyntio ar greu gwytnwch i ddelio â heriau ar draws cwrs bywyd a sut y gellir defnyddio data'n effeithiol i gefnogi gweithredu ac effaith.

Holodd y Pwyllgor a oedd yr ymchwil, o ystyried pwysigrwydd deall iechyd meddwl, yn edrych ar ddemograffeg wahanol megis ethnigrwydd, amrywiaeth a chynhwysiant fel

Wedi'i Gadarnhau

Wedi'i Gadarnhau

ffactorau risg yn enwedig mewn perthynas ag anghydraddoldebau iechyd a chafodd ei sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried.

Holodd y Pwyllgor a fyddai un o nodau presennol yr ymchwil (i osgoi rhoi mentrau llesiant ar waith) yn fuddiol oherwydd eu manteision ar gyfer adferiad iechyd meddwl. Mynegwyd pryderon ynghylch poblogaethau hŷn y dylid ystyried data amdanynt o ystyried materion iechyd meddwl yn deillio o unigrwydd ac ynysu.

Trafododd y Pwyllgor hefyd sut y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru ganolbwyntio mwy ar ddefnyddio data ymchwil i ddylanwadu ar bolisi i ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir. Cytunwyd y dylid ystyried hyn yng nghyd-destun y strategaeth hirdymor a nodau Llywodraeth Cymru. Byddai KRIC yn adolygu cynnydd ar agenda yn y dyfodol.

Cyflwynodd EV yr ymchwil i ymyriadau lefel ysgol a chymorth i ysgolion, megis hyfforddiant ar gyfer staff sy'n wynebu ysgolion, a rhaglen Hapus gan nodi bod y Fframwaith Lles wedi'i gyhoeddi yn 2023 (4.1 KRIC 2024_03_05 - Presentation Mental Health.pptx (live.com )). Cafodd hyn dderbyniad da, a gofynnodd y pwyllgor am ddiweddariadau pellach. Wrth drafod cwrs bywyd, gwnaed y pwynt ein bod yn aml yn anghofio cynnwys camau fel y menopos y gwyddys eu bod yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl.

Diolchodd SG i'w gydweithwyr am y cyflwyniad a'r gwaith a wnaed gan y tîm. Nododd y cyfle i ddangos fersiwn gorffenedig o'r graff cylch bywyd a ddangoswyd ar sleid 29 o'r cyflwyniad i'r Bwrdd.

**Cam Gweithredu: JM**

Dywedodd y Pwyllgor y dylai data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru geisio deall pa fylchau sy'n bodoli yn y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau iechyd meddwl a sicrhau bod darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ymwybodol o'r wybodaeth hon, gan amlygu pensaernïaeth y system gwasanaeth iechyd meddwl a rôl y sefydliadau.

Cydnabuwyd y gall bylchau yn y ddarpariaeth fodoli oherwydd diffyg adnoddau a/neu gyllid, a byddai dull strategol/systematig gwell yn caniatáu ar gyfer gwell defnydd o gyllid a gwella gwasanaethau. Cododd hyn y cwestiwn ynghylch sut i benderfynu ar feysydd blaenoriaeth o fewn yr adnoddau sydd ar gael, a phwysigrwydd gwasanaethau atal cynnar i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd meddwl gwael ac i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng iechyd meddwl a chorfforol. Byddai data o'r fath yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru yn enwedig gan eu bod newydd lansio'r ymgynghoriad ar Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant ddrafft.
Trafododd y Pwyllgor pa fesurau y dylid eu defnyddio i fesur llwyddiant rhaglenni a gwasanaethau, a'r gwahaniaethau rhwng llwyddiant i gymunedau ac i unigolion. Fe'u hysbyswyd bod y rhain i'w trafod yn nigwyddiad partneriaid Hapus ddiwedd mis Mawrth 2024.

Gofynnodd SG i LB ychwanegu Iechyd Meddwl at yr agenda ar gyfer sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod gwaith ar ddata ac ymchwil ar iechyd

meddwl yng Nghymru yn parhau ac y bydd yn cael ei adolygu/cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.

**Cam Gweithredu: LB**

| | |
|---|---|
| **KRIC 5/2024.03.05** | **Diweddariad ar y Strategaeth Ddigidol a Data** |
| **KRIC 5.1/2024.03.05** | **Diweddariad ar Weithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data** |

Rhoddodd DJ yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y pum maes allweddol a amlinellwyd. Cyflwynwyd yr wybodaeth hon i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar 29 Ionawr a roddodd sicrwydd ar y gwaith. Nodwyd hefyd bod y Rheolwr Cyflawni Arweiniol bellach yn ei swydd. Rhoddodd IB hefyd drosolwg o fap llwybr y gwaith.

Trafododd y Pwyllgor yr angen i ddeall pryd y byddai prosiectau'n dechrau a pha mor hir y byddent yn ei gymryd i'w cwblhau, a byddai amserlen fanwl o fudd i'r Pwyllgor ddeall y gweithgaredd arfaethedig. Nodwyd hefyd y byddai amserlen o gymorth wrth gynllunio at y dyfodol ar gyfer unrhyw amhariad ar wasanaethau fel rhan o'r gwaith hwn. Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'r amserlen lawn yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin ac yna'i chyflwyno i'r Bwrdd.

Trafododd y Pwyllgor gyfeiriad at y Fframwaith Cydraddoldeb Iechyd a ddatblygwyd i ganiatáu i feysydd gwasanaeth gasglu data ar y cymorth a ddarperir i'r rhai â nodweddion gwarchodedig, gan gyfeirio'n benodol at y rheini ag anableddau dysgu. Byddai'r fframwaith hwn yn mudo i Weithrediaeth y GIG ac yn dod yn rhan ohoni.

Sicrhaodd y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni'r prosiectau yr oedd wedi ymrwymo iddynt, ac yn gwella ei ddefnydd o ddigidol, data a thechnoleg i ddarparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus rhagorol. Nododd y Pwyllgor hefyd y byddai'r amserlen lawn yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Mehefin.

DJ/JB i ddod â fersiwn wedi'i chwblhau o'r amserlen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 6 Mehefin 2024.

**Cam Gweithredu – DJ/IB**

| | |
|---|---|
| **KRIC 5.1.1/2024.03.05** | **Adroddiad sicrwydd ar Offeryn Dewis Carfan Bron Brawf Cymru a gwaith awtomeiddio Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW)** |

Rhoddodd DJ gyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r Modiwl Dewis Carfan Sgrinio'r Fron. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau yn natblygiad y modiwl 'Dewis' a fyddai'n disodli'r system ddemograffeg flaenorol a oedd yn cael ei datgomisiynu ym mis Mehefin 2024. Roedd y cyflwyniad hwn yn cynnwys enghreifftiau o fygiau a gafodd sylw. Roedd hefyd yn cynnwys amserlen ddisgwyliedig y prosiect, gan gynnwys y newid i fersiwn barhaol o'r modiwl erbyn Ebrill 2024.
Roedd y broses awtomeiddio Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru o atgyfeiriadau gan feddygon teulu gyda phrofion i'w chwblhau drwy gydol mis Mawrth 2024, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2024.

Wedi'i Gadarnhau

Diolchodd SG i DJ am y diweddariad, a chymerodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch cynnydd Offeryn Dewis Carfan Bron Brawf cymru a gwaith awtomeiddio DESW.

| | |
|---|---|
| **KRIC 5.1.2/2024.03.05** | **Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru** |

Rhoddodd SA ddiweddariad ar y gwaith ar Menter Adroddiad Statws Tegwch Iechyd Cymru fel gwerthusiad cychwynnol o effaith a dull y prosiect.

Nodwyd bod y prosiect yn dal i fod yn ei gamau datblygu cynnar gan iddo gael ei lansio ym mis Mehefin 2023 i gyflawni ymrwymiad rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd gwerthusiad ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer 2026 yn y cylch Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y ffaith y gallai'r gwaith hwn elwa ar fframwaith sy'n cyd-fynd â'r meysydd ansawdd er mwyn ymdrin ag unrhyw faterion posibl o'r data tystiolaeth.

**Sicrhawyd** y Pwyllgor gan y cynnydd a wnaed ar y WHESP hyd yma a'r monitro a'r gwerthuso a oedd ar y gweill ac a oedd yn yr arfaeth.

| | |
|---|---|
| **KRIC 6/2024.03.05** | **Diweddariad ar Weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso** |
| **KRIC 6.1 2024.03.05** | **Cynnydd yn dilyn gweithredu'r Strategaeth a Monitro a sicrwydd o gyflawni yn erbyn y Blaenoriaethau Strategol** |

Rhoddodd AD ac EDL ddiweddariad ar y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso.

Roedd y diweddariad yn nodi'r grŵp goruchwylio sy'n cynnwys cynrychiolwyr uwch arweinwyr o wahanol gyfarwyddiaethau sy'n cyfarfod bob mis i sicrhau cydberchnogaeth a strategaeth sefydliadol ar draws meysydd allweddol.

Soniodd y Pwyllgor am fanteision cysylltiadau ymchwil â sefydliadau eraill a holodd beth oedd y cynlluniau lledaenu ar gyfer cronfa ddata/canolfan ddichonoldeb SAIL. Cadarnhaodd AD fod 10 trwydded wedi'u prynu ac y byddent yn mynd drwy'r grŵp goruchwylio Ymchwil a Gwerthuso i benderfynu at ba staff allweddol y dylent fynd. Amlygwyd bod nodau i symud o Decipher i berthynas fwy strategol gyda Phrifysgol Caerdydd, ac y byddai meysydd o ddiddordeb ymchwil yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2024. Gofynnodd SG i hwn gael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor.
**Cam Gweithredu: IB**

Diolchodd SG i AD ac EDL am y diweddariad a chymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd a gweithrediad Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru.

| | |
|---|---|
| **KRIC 6.2 /2024.03.05** | **Diweddariad Iechyd y Cyhoedd Academaidd a goblygiadau ar gyfer rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel cynullydd systemau** |

Wedi'i Gadarnhau

Rhoddodd EDL ddiweddariad llafar ar gynnydd y gwaith dadansoddol yn ymwneud â gwaith academaidd iechyd y cyhoedd, gan gynnwys mapio tirwedd ymchwil academaidd iechyd y cyhoedd yng Nghymru a chyfleoedd am gyllid.

Amlygodd y diweddariad hwn yr alwad am dystiolaeth i holl Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ar gyfer eu nodau a'u gwaith cyfredol a adolygwyd gan y Grŵp Llywio Iechyd y Cyhoedd Academaidd yn ddiweddar. Cynhaliwyd cyfweliadau gan ymgynghorydd allanol gydag uwch academyddion ac ymchwilwyr o brifysgolion ac Iechyd Cyhoeddus Cymru/Llywodraeth Cymru ac mae adroddiad yn cael ei baratoi. Byddai crynodeb gweithredol ar gyfer trafodaeth bellach yn cael ei ddosbarthu ar ôl yr adborth o gyfarfod y panel allanol ym mis Ebrill 2024, a byddai'n cael ei rannu ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr adborth cadarnhaol o gyfarfod diweddar y Grŵp Llywio Academaidd ynghylch rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru fel arweinydd/hwylusydd system yn y maes hwn, ond pwysleisiodd y byddai angen amser ac adnoddau ar gyfer hyn. Yn ogystal, sut y dylid archwilio cyfleoedd pellach i staff gymryd rhan mewn ymchwil, tra hefyd yn ystyried y gost ac a oedd digon o gyllid ar gael. Dywedodd y Pwyllgor y dylid cefnogi staff i ddatblygu sgiliau ymchwil, ac y gallai hyn hefyd fod o fudd i gefnogi staff sydd am ddatblygu gyrfa mewn ymchwil. Mae angen trafodaeth bellach ar hyn.

Holodd y Pwyllgor hefyd sut i werthuso effaith prosiectau ymchwil. Pwysleisiodd IB yr angen am werthusiad ar sail canlyniadau a nododd enghraifft o Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru yn newid eu model cyflawni yn seiliedig ar ganlyniadau ymchwil. Tynnodd y Pwyllgor sylw hefyd at fanteision cadwyno canlyniadau prosiectau ymchwil i waith yn y dyfodol er mwyn cael mwy o effaith.

Diolchodd SG i EDL am y diweddariad, a **chymerodd y Pwyllgor sicrwydd** bod y gwaith a wnaed i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer ymchwil academaidd i iechyd y cyhoedd yn gwneud cynnydd gyda cherrig milltir a nododd y cynllun ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad sydd i ddod.
**CAM GWEITHREDU: EDL**

| **KRIC 6.3/2024.03.05** | **Genomeg - Diweddariad** |
|---|---|

Rhoddodd MK a TC drosolwg ar feysydd datblygiad y rhaglen Genomeg a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Roedd hyn yn cynnwys amserlenni'r rhaglen a'r cynnydd yng nghapasiti'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y tîm Genomeg. (Cyflwyniad PowerPoint (gig.cymru).
Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at y partneriaethau rhyngwladol a wnaed o ganlyniad i'r rhaglen a sut roedd Cymru'n cael ei gweld fel arweinydd mewn genomeg yn y DU. Canmolodd y Pwyllgor y twf a wnaed yn yr ymchwil hwn. Tynnwyd sylw at waith yn y dyfodol, gan gynnwys Bwrdd Genomeg y DU ar 12 Mawrth a phapur Llywodraeth Cymru ar fiopsi hylifol gyda chyfle ariannu posibl.
Diweddariad byr oedd hwn, a gofynnodd y pwyllgor am drafodaeth fanwl mewn cyfarfod pellach – gan ystyried pryd y gellid trafod hyn mewn sesiwn Datblygu Bwrdd.

Diolchodd SG i TC am y diweddariad. Sicrhawyd y Pwyllgor fod cynnydd da yn cael ei wneud a chymeradwyodd y nod o ddatblygu cynllun ymchwil ar gyfer Genomeg Iechyd y Cyhoedd i'w drafod yn ddiweddarach.

Wedi'i Gadarnhau

| | |
|---|---|
| **KRIC 7/2024.03.05** | **Risg** |
| **KRIC 7.1/2024.03.05** | **Cofrestr Risgiau Strategol** |

Rhoddodd SS drosolwg o'r papurau ar reoli'r risgiau strategol a oedd o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn. Amlygodd fod y Bwrdd wedi cymeradwyo newid y Pwyllgor ar gyfer Risgiau 1 a 2 i'r Pwyllgor hwn o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Nodwyd hefyd newidiadau i'r templed Risg, megis mwy o naratif ynghylch symudiad yn y sgôr risg, newidiadau ers yr adroddiad diwethaf wedi'u hamlygu a miniogi ffocws risgiau a'r broses risg. Nododd y Pwyllgor y byddai hwn yn dychwelyd fel eitem yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin ar ôl cael ei drafod yn y Bwrdd i roi trosolwg o'r ailddatgan risg.

**Nododd** y Pwyllgor fod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r newid i sicrhau Pwyllgor y Bwrdd ar gyfer Risgiau Strategol 1 a 2 o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella i'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwybodaeth. Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth** i'r Risgiau Strategol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a chymerodd sicrwydd ynghylch rheoli'r Risgiau Strategol hyn

| | |
|---|---|
| **KRIC 7.2/2024.03.05** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y Gofrestr Risg Gorfforaethol wedi'i diweddaru.

| | |
|---|---|
| **KRIC 8/2024.03.05** | **Llywodraethu Pwyllgorau** |
| **KRIC 8.1/2024.03.05** | **Polisïau i'w Cymeradwyo** |

Cyflwynodd LB y polisi Eiddo Deallusol i'w gymeradwyo. Nodwyd bod y polisi hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad a'i fod wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Arwain.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Polisi Eiddo Deallusol.

| | |
|---|---|
| **KRIC 8.2/2024.03.05** | **Diweddariad Llywodraethu'r Pwyllgor** |

Cytunodd LB i ddarparu crynodeb o'r eitem hon drwy e-bost.
**Cam Gweithredu: LB**

| | |
|---|---|
| **KRIC 9/2024.03.05** | **Gweinyddiaeth i Gloi** |

Unrhyw fusnes arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 4 Mehefin 2024

Daeth y cyfarfod i ben am 12:37

Wedi'i Gadarnhau